WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o'r Trefniadau Rheoli Perfformiad – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 567A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a wnaed/sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Richard Hayward, Gwilym Bury ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r system rheoli perfformiad yn casglu data'n effeithlon ac yn helpu'r Cyngor i werthuso ei waith, ond mae diffyg gwybodaeth ariannol ynddi.


Adroddiad cryno

Cynnig ar gyfer gwella 4

Adroddiad manwl

Mae'r system rheoli perfformiad yn casglu data'n effeithlon ac yn helpu'r Cyngor i werthuso ei waith, ond mae diffyg gwybodaeth ariannol ar hyn o bryd 5

Mae'r broses effeithlon o gasglu mesurau perfformiad yn helpu i fonitro amcanion gwella 5

Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth ddilysu a phrofi'r data sydd wedi'u cynnwys yn y system rheoli perfformiad 6

Gall y system rheoli perfformiad gofnodi'r holl ddata perthnasol ond ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor wybodaeth ariannol yn y set ddata 7

# Adroddiad cryno

1 Yn 2015, prynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) system rheoli perfformiad llywodraeth leol newydd (a ddatblygwyd ac a gyflenwyd gan CAMMS) er mwyn gwella trefniadau rheoli perfformiad. Mae CAMMS yn ei gwneud yn bosibl i gysoni'r gwaith o gofnodi ac adrodd ar wybodaeth am berfformiad â rheoli risg, rheoli prosiect a chynllunio strategol.

2 Ymhlith buddiannau disgwyliedig CAMMS mae symleiddio'r broses o lunio gwell adroddiadau ar berfformiad, gwella mynediad at ddata, a sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd am ganlyniadau.

3 Er mwyn gwerthuso effaith CAMMS, yn ystod 2018 gwnaethom adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion allweddol ac aelodau etholedig ac adolygu'r system.

4 Cafodd y dangosydd perfformiad ar gyfer canran y gwastraff trefol a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd ei ddefnyddio i brofi olrhain y gwaith o archwilio data yn CAMMS.

5 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad fod **y system rheoli perfformiad yn casglu data'n effeithlon ac yn helpu'r Cyngor i werthuso ei waith, ond bod diffyg gwybodaeth ariannol ar hyn o bryd**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r broses effeithlon o gasglu mesurau perfformiad yn helpu i fonitro amcanion gwella
- Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth ddilysu a phrofi'r data sydd wedi'u cynnwys yn y system rheoli perfformiad.
- Gall y system rheoli perfformiad gofnodi'r holl ddata perthnasol ond ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor wybodaeth ariannol yn y set ddata.

6 Rydym wedi gwneud un cynnig ar gyfer gwella.

# Cynnig ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynnig ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| **Cynnig ar gyfer gwella** | |
| C1 | Dylai'r Cyngor gynnwys gwybodaeth ariannol gryno yn yr adroddiadau ar Adolygu Perfformiad Gwasanaethau. |

7 Hoffai'r tîm archwilio ddiolch i'r sawl y gwnaethom gyfarfod â nhw am eu hamser yn cyfrannu at yr adolygiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Mae'r system rheoli perfformiad yn casglu data'n effeithlon ac yn helpu'r Cyngor i werthuso ei waith, ond mae diffyg gwybodaeth ariannol ar hyn o bryd

### Mae'r broses effeithlon o gasglu mesurau perfformiad yn helpu i fonitro amcanion gwella

8 Mae cysylltiadau clir o fewn y system CAMMS newydd rhwng mesurau perfformiad, camau gweithredu, risgiau a phrosiectau ac amcanion gwella penodol. Mae'r system fynegeio yn CAMMS yn creu hierarchaeth o wybodaeth am berfformiad sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r datganiad gweledigaeth 'Conwy – Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd'. Dengys hyn yr 'edau aur' h.y. tasgau unigol sy'n ffurfio camau gweithredu, camau gweithredu sy'n cyflawni canlyniadau gwasanaeth a chanlyniadau gwasanaeth sy'n gyson â blaenoriaethau'r Cyngor. Gellir edrych ar y wybodaeth o safbwynt blaenoriaeth gwasanaeth neu o safbwynt blaenoriaeth y Cyngor.

9 Mae CAMMS wedi ei gwneud yn haws i'r Cyngor reoli perfformiad. Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sefydledig eisoes ac mae CAMMS wedi atgyfnerthu'r trefniadau. Prif fudd CAMMS yw'r gallu i storio amrywiaeth o wybodaeth gysylltiedig mewn un man. Cyn hyn, roedd y wybodaeth am brosiectau a risgiau yn bodoli mewn 'seilos' a phrin oedd y cysylltiad â'r 'edau aur'. Mae holl brif brosiectau'r Cyngor wedi'u mewnbynnu i CAMMS a chânt eu rheoli gan fethodoleg PRINCE2[1]. Hefyd, ni ellir dechrau unrhyw brosiect o fewn y Cyngor heb nodi'n gyntaf ble mae'n eistedd yn y Cynllun Corfforaethol.

10 Mae swyddogaeth adrodd CAMMS yn galluogi swyddogion i lunio adroddiadau clir sy'n helpu i fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a chanlyniadau. Datblygwyd amrywiaeth o adroddiadau gan y Tîm Perfformiad Corfforaethol er mwyn adolygu ac allforio data o'r system. Mae meini prawf dethol yn galluogi defnyddwyr i fireinio canlyniadau yn seiliedig ar ofynion penodol. Ym marn yr uwch reolwyr a'r aelodau y gwnaethom siarad â nhw, mae'r adroddiadau wedi'u cyflwyno'n dda a gellir eu dehongli'n hawdd, sy'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau.

11 Mae CAMMS wedi galluogi'r Tîm Perfformiad Corfforaethol i fod yn fwy effeithiol. Yn sgil y ffaith ei bod yn cymryd llai o amser i lunio adroddiadau ar berfformiad, mae'r tîm wedi gallu treulio mwy o amser yn adolygu, dilysu a gwerthuso data. Cyn cyflwyno CAMMS, roedd y broses o lunio adroddiadau ar berfformiad yn llafurus iawn i'r Tîm Perfformiad Corfforaethol. Er mwyn llunio adroddiad, roedd angen

[1] Mae PRINCE2 yn ddull rheoli prosiect strwythuredig ac yn rhaglen ardystio ymarferwyr. Mae PRINCE2 yn rhoi pwyslais ar rannu prosiectau yn gamau y gellir eu rheoli.

casglu data o wahanol systemau o fewn y Cyngor a'u fformatio er mwyn sicrhau cysondeb. Fel rhan o'r broses, roedd angen gofyn am wybodaeth yn barhaus oddi wrth staff gwasanaeth a gwneud gwaith gwirio â llaw er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn gyflawn cyn eu cyhoeddi.

12 Mae CAMMS wedi symleiddio'r broses o gasglu data. Ar gam gweithredu CAMMS cwblhaodd y Tîm Perfformiad Corfforaethol archwiliad o bob cais am ddata a gwybodaeth. Nododd, mewn rhai achosion, y gofynnwyd i wasanaethau am yr un wybodaeth fwy nag unwaith er mwyn llunio adroddiadau a ffurflenni data amrywiol. Mae CAMMS wedi dileu'r posibilrwydd o ddyblygu drwy sicrhau mai dim ond unwaith y caiff data eu casglu.

13 Mae'r hyfforddiant a'r cymorth a roddir i ddefnyddwyr CAMMS o safon uchel. Mae'r Tîm Perfformiad Corfforaethol yn cynnig hyfforddiant grŵp ar sail rhaglen dreigl a chymorth un i un ar gais. Mae safle mewnrwyd CAMMS dynodedig yn cynnwys deunyddiau hyfforddi, er enghraifft, canllawiau ar sut i bennu'r statws cywir yn erbyn camau gweithredu, dyrannu sgoriau coch (oddi ar y llwybr cywir), melyn (monitro) a gwyrdd (ar y llwybr cywir) a datganiadau dull ar gyfer adrodd ar ddangosyddion perfformiad. Roedd y swyddogion y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod yr hyfforddiant o safon uchel ac roeddent yn hyderus bod y diweddarwyr yn y gwasanaeth yn deall sut i ddefnyddio'r system. Wrth symud ymlaen, ystyrir defnyddio Skype i recordio sesiynau hyfforddi a chynnal gweminarau.

14 Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr CAMMS wedi cael hyfforddiant. Mae cyfanswm nifer defnyddwyr CAMMS wedi tyfu'n sylweddol o tua 100 yn 2016 i fwy na 700, sy'n cynnwys 116 o ddefnyddwyr sy'n aros am hyfforddiant ar hyn o bryd.

## Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth ddilysu a phrofi'r data sydd wedi'u cynnwys yn y system rheoli perfformiad

15 Mae'r prosesau i gofnodi gwybodaeth yn CAMMS yn glir ac yn cael eu deall yn dda. Caiff y rhan fwyaf o wybodaeth yn CAMMS ei mewnbynnu gan 'ddiweddarwyr' o'r gwasanaethau a nodir gan Reolwyr Busnes gwasanaeth yn seiliedig ar eu maes gwaith a chyfrifoldeb. Y rheswm dros wneud hyn yw ei bod yn gwneud yr unigolion a gwasanaethau yn fwy atebol am eu perfformiad eu hunain. Er mwyn sicrhau bod y system yn ddiogel, caiff y diweddarwyr ganiatadau penodol er mwyn gweld a diwygio eitemau perthnasol yn CAMMS drwy dudalen 'MyQuick Update'.

16 Mae profion cadarn ar y system yn sicrhau bod CAMMS yn cael ei ffurfweddu'n gywir. Cynhaliwyd profion helaeth ar gam gweithredu CAMMS. Yn eu plith roedd gwirio a mireinio'r system fynegeio er mwyn sicrhau bod y canlyniadau cywir yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau perthnasol. Cynhelir profion parhaus pan fo angen, megis pan fo achos o uwchraddio'r system. Mae pob aelod o'r Tîm Perfformiad Corfforaethol yn gyfrifol am gynnal profion a gwiriadau.

17 Mae'r trefniadau ar gyfer dilysu data a sicrhau ansawdd yn effeithiol. Caiff y gwaith o ddilysu data ei gyflawni'n ganolog gan y Tîm Perfformiad Corfforaethol ac yn y gwasanaethau lle caiff ei arwain gan y Rheolwyr Busnes. Caiff y Tîm Perfformiad

Corfforaethol bythefnos i adolygu'r Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn a diweddariadau i'r Cynllun Corfforaethol. Treulir y rhan fwyaf o'r amser yn prawf ddarllen dogfennau ac yn cydweithio â'r gwasanaethau er mwyn egluro unrhyw beth sy'n aneglur. Mae'r gwasanaethau yn cynnal gwiriadau dilysu data parhaus fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad.

18 Mae'r wybodaeth am berfformiad yn yr adroddiadau a gaiff eu llunio gan y system yn gywir. Ym marn yr uwch reolwyr a'r aelodau y gwnaethom siarad â nhw, mae cywirdeb data ac ansawdd gwybodaeth yn adroddiadau CAMMS yn ardderchog. Nodwyd mai'r prif welliant o gymharu â'r adroddiadau blaenorol oedd ansawdd y naratif a gynhwysir er mwyn egluro'r cynnwys a'r rhesymau dros y perfformiad.

19 Ni wnaeth ein profion ar y dangosydd perfformiad ar gyfer canran y gwastraff trefol a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd nodi unrhyw bryderon. Roedd y mewnbynnau chwarterol ar gyfer y rhifiadur a'r enwadur yn 2016-17 yn gyson â'r data sylfaenol a gymerwyd o'r ffurflenni data ar gyfer Llif Gwastraff i Lywodraeth Cymru.

## Gall y system rheoli perfformiad gofnodi'r holl ddata perthnasol ond ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor wybodaeth ariannol yn y set ddata

20 Er bod CAMMS yn cynnwys y rhan fwyaf o wybodaeth sydd ei hangen i werthuso'r ffordd mae'r Cyngor yn perfformio, nid yw'n cynnwys data ariannol. Mae'r system yn cynnwys tri modiwl sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu mesurau, camau gweithredu, prosiectau a risgiau i'r Cynllun Corfforaethol, cynlluniau strategol eraill a chynlluniau gwasanaeth. Mae'r modiwl Rhyng-gynllun yn creu crynodeb o'r camau gweithredu, mesurau, risgiau a chyllideb er mwyn dangos statws coch, melyn a gwyrdd pob eitem ond nid oes unrhyw wybodaeth am y gyllideb gyffredinol. Mae methodoleg cyllideb CAMMS yn seiliedig ar gyllideb camau gweithredu unigol, nad yw'n gyson â threfniadau pennu cyllideb y Cyngor. Nodwyd bod y diffyg gwybodaeth ariannol yn CAMMS yn wendid gan rai swyddogion pan wnaethom siarad â nhw.

21 Cred y Cyngor, er bod gan y system y gallu i gofnodi dyraniad cyllideb cyffredinol gan bob cam gweithredu, nid yw'n ddigon soffistigedig i ddiwallu anghenion systemau rheoli ariannol y Cyngor, ac ar hyn o bryd mae'n cydweithio i brynu system gyllid gorfforaethol newydd . Sut bynnag, mae'r wybodaeth ariannol a gynhwysir ar hyn o bryd yn adroddiadau adolygu hunan-asesiad y gwasanaeth yn gyfyngedig iawn ac nid yw'n darparu crynodeb cynhwysfawr o wybodaeth ariannol.

22 Mantais integreiddio data ariannol yn erbyn camau gweithredu, mesurau, risgiau a phrosiectau yw dangos effaith newidiadau cyllidebol ar ansawdd gwasanaethau a'r broses o'u cyflenwi. Mae hyn yn arbennig o wir yn erbyn y darlun cenedlaethol o gwtogi ariannol pellach. Gellid ei ystyried yn 'gynnydd' net neu'n welliant cadarnhaol lle mae gwasanaeth wedi cynnal ei berfformiad yn dilyn lleihad yn y gyllideb. Yn yr un modd, bydd y data, y camau gweithredu a'r prosiectau cyllid yn

dangos p'un a yw gwasanaeth yn cyflawni 'mwy am lai' wrth i'r Cyngor gyflawni ei Gynllun Corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail:
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru